CYD-BWYLLGOR MOESEG ANNIBYNNOL
COFNODION

Dydd Gwener, 17 Rhagfyr 2021 drwy Microsoft Teams

1a. Yn bresennol

Yn bresennol:
Dr John William Devine (Cadeirydd)
Mr Mike Lewis (Is-gadeirydd)
Mr Joga Singh
Dr Jacqueline Gantley
Mrs Bronwen Williams
Dr Harriet Pierpoint
Mr Lee Jones
Ms Jayne Woodward
Rhingyll Sian O'Shea
Ms Carol Woodward
Mr Martyn Jones
Prif Uwch-arolygydd Danny Richards
Rhingyll Jennifer Owen
Ms Nia Brennan
Ms Sarah Griffiths (Ysgrifenyddiaeth)
Ms Holly Watson (Cofnodion)

Gwesteion yn Cyflwyno Enghreifftiau o Gyfyng-gyngor Moesegol:
Rhingyll Steve Jones – Cyfyng-gyngor Cam-drin Hiliol
James Johnson – Cyfyng-gyngor Hunanladdiad Gyda Chymorth

Ymddiheuriadau:
Mr Gary Gray (Gwestai - Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi)
Prif Gwnstabl Cynorthwyol Mark Travis
Ditectif Arolygydd Jack Wiskerd
Arolygydd Matthew Hicks
Rhingyll Claire Evans-Bell
Arolygydd Mathew Newman

2. Cyflwyniadau a Chroeso – Y Cadeirydd

Croesawodd y Cadeirydd yr aelod mwyaf newydd o'r pwyllgor, y Rhingyll Jennifer Owen, i'r cyfarfod. Rhoddodd y Rhingyll Jennifer Owen gefndir byr o'i rôl yn Heddlu De Cymru.

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i'r cyflwynwyr gwadd, y Rhingyll Steve Jones a James Johnson.

3. Cofnodion a Chamau Gweithredu 29/03/2021 – Y Cadeirydd

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod 16 Medi 2021.

Rhif y Cam Gweithredu	Camau Gweithredu Blaenorol	Perchennog	Statws/ Diweddariad
24.06.2020.4	Trafod y posibilrwydd o ymestyn cyfnodau mewn swydd ac adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.	Mike Lewis a Nia Brennan	**Diweddariad 9.12.2020:** Trafodwyd y cylch gorchwyl mewn cyfarfod arbennig ar 21/10/2020 lle cytunwyd ar y canlynol: 1. Dylid ymestyn cyfnod y swydd i aelodau pwyllgor annibynnol i 4 blynedd; 2. Rhaid i 3 aelod annibynnol o leiaf fynd i bob cyfarfod, a 3. Ni fyddai angen i gyfarfodydd ddigwydd mewn person mwyach. Cytunodd Dr Pierpoint â'r awgrym y dylid ymestyn ei chyfnod yn y swydd i bedair blynedd (11.11.2022). Roedd Duncan Lewis wedi anfon

Rhif y Cam Gweithredu	Camau Gweithredu Blaenorol	Perchennog	Statws/ Diweddariad
			ymddiheuriadau ar fyr rybudd a chysylltwyd ag ef ar ôl y cyfarfod. Roedd yn well ganddo beidio ag ymestyn ei gyfnod fel aelod o'r pwyllgor ac felly byddai'n gorffen ar 11.11.2021. **Diweddariad 10.06.2021:** Nia Brennan i wneud mân newidiadau i'r cylch gorchwyl a'i gymeradwyo. Trafododd y Pwyllgor gydnabyddiaeth a nododd y Cadeirydd y dylai aelodau o'r Pwyllgor a oedd yn dod i gyfarfodydd gael cydnabyddiaeth. Fodd bynnag, ni fyddai aelodau'n derbyn ad-daliad am ymchwil annibynnol. Os bydd gwaith ar ffurf gwasanaeth cynghori o fewn cylch gwaith Swyddfa'r Comisiynydd, yna gellid ystyried cydnabyddiaeth yn ôl disgresiwn Swyddfa'r Comisiynydd. Nododd y PGC Travis fod y gwaith ychwanegol a oedd yn cael ei wneud gan aelodau'r pwyllgor yn werthfawr ac yr hoffai weld hyn yn datblygu ymhellach. **Cam Gweithredu: John William Devine, PGC Travis a Lee Jones i ystyried a fydd gwaith ychwanegol gan aelodau er lles y Pwyllgor yn cael ei ariannu a sut bydd yn cael ei ariannu a threfniadau llywodraethu a threfniadau eraill ar gyfer gwaith o'r fath.** **Diweddariad 17.12.21:** Cylch gorchwyl wedi'i gymeradwyo – Gollyngwyd y cam gweithredu.
29.03.2021.3	ACC Travis i ystyried cynrychiolaeth gan swyddogion yr heddlu yn y Cyd-bwyllgor Moeseg Annibynnol.	Kevin Richards/Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Mark Travis	**Diweddariad 10.06.2021:** Soniwyd am bresenoldeb yn y Grŵp Moeseg Mewnol (13.05.2021). Caiff trafodaethau pellach eu cynnal mewn cyfarfod tîm mewnol a chaiff aelodaeth ei thrafod ymhellach â'r Cyd-bwyllgor Moeseg Annibynnol unwaith y bydd hwn wedi'i gynnal. **Diweddariad 16.09.2021:** Gofyn am fynegiadau o ddiddordeb gan swyddogion. **Diweddariad 17.12.2021:** Mae'r Rhingyll Jennifer Owen wedi ymuno â'r Cyd-bwyllgor Moeseg Annibynnol. Gollyngwyd y Cam Gweithredu.
10.06.2021.1	John William Devine, PGC Travis a Lee Jones i ystyried a fydd gwaith ychwanegol sy'n cael ei ymgymryd gan aelodau'r Pwyllgor er budd y Pwyllgor yn cael ei gydnabod a'i ariannu a sut bydd hynny'n cael ei wneud.	John William Devine	**Diweddariad 19.09.2021:** John William Devine i gyfarfod â PGC Travis a Lee Jones i drafod cydnabyddiaeth i aelodau sy'n ymgymryd â gwaith ychwanegol (ar ben eu gwaith pwyllgor arferol) er budd y Pwyllgor. **Diweddariad 17.12.2021:** Bydd sgyrsiau'n cael eu cynnal mewn perthynas â chydnabyddiaeth am waith a gwblhawyd gan aelodau o'r Pwyllgor.
10.06.2021.2	Defnyddio Pwerau'r Heddlu/Stopio a Chwilio: John William Devine i arwain gweithgor i nodi enghreifftiau o gyfyng-gyngor moesegol/llunio cwestiynau penodol a	John William Devine	**Diweddariad 16.09.2021:** Mae grŵp gweithredol wedi'i ffurfio a thri chyfarfod wedi'u cynnal. Mae disgwyl i'r cyfarfod olaf gael ei gynnal ym mis Hydref/Tachwedd. Trafododd y grŵp fater cyffredinol Stopio a Chwilio, y prif themâu a'r materion moesegol a godir ganddo, data perthnasol, goblygiadau moesegol y data hwnnw, a datblygiad dogfen friffio. Caiff y ddogfen friffio ei dosbarthu i'r Pwyllgor i'w hystyried mewn cyfarfod pellach.

Rhif y Cam Gweithredu	Camau Gweithredu Blaenorol	Perchennog	Statws/ Diweddariad
	data i'r Pwyllgor eu hystyried. Bydd y gweithgor yn cynnwys yr Uwch-arolygydd Stone, Martyn Jones, John William Devine, Harriet Pierpoint, Joga Singh a Lee Jones.		Bydd y grŵp yn canolbwyntio nesaf ar p'un a ddylid defnyddio Stopio a Chwilio o gwbl yn Ne Cymru, pa fecanweithiau atebolrwydd y dylid eu gweithredu o'i ddefnyddio, a pha heriau moesegol sy'n codi o gyfathrebu â'r cyhoedd ynglŷn â'r defnydd o Stopio a Chwilio. **Diweddariad 17.12.2021:** Cynhaliodd y grŵp ei gyfarfod diwethaf yn gynharach ym mis Rhagfyr. Mae dogfen friffio'n cael ei pharatoi a bydd yn cael ei dosbarthu i'r Pwyllgor yng nghyfarfod mis Mawrth. Diolchodd y Cadeirydd i holl aelodau'r gweithgor Stopio a Chwilio am eu cyfraniadau.
10.06.2021.3	Nia Brennan i adolygu adroddiad blynyddol y Cyd-bwyllgor Moeseg Annibynnol.	Nia Brennan	**Diweddariad 16.09.2021:** Mae'r adroddiad blynyddol yn cael ei gwblhau. **Diweddariad 17.12.2021:** Cwblhawyd yr Adroddiad Blynyddol ac fe'i rhannwyd gyda'r Cyd-bwyllgor Moeseg Annibynnol. Gollyngwyd y Cam Gweithredu.
16.09.2021.2	John William Devine a Lee Jones i fwrw ymlaen â'r gwaith o recriwtio aelodau newydd i'r pwyllgor yn cynnwys grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli.	John William Devine a Lee Jones	**Diweddariad 17.12.2021:** I'w ddatblygu ymhellach yn y flwyddyn newydd. Bydd trafodaethau'n cael eu cynnal rhwng John William, Lee Jones, Nia Brennan ac Ian Vaughan.

4. Cylch Gorchwyl

Cymeradwywyd y cylch gorchwyl gan y Pwyllgor. Cafodd cymal ei gyflwyno i gwmpasu grwpiau is-bwyllgor.

5. Cyfyng-gyngor Moesegol i'w Drafod – Wedi'i Uwchgyfeirio o'r Grŵp Moeseg Mewnol

5.1 Cyfyng-gyngor Moesegol Cam-drin Hiliol

Darparodd y Rhingyll Steve Jones y cefndir i gyfyng-gyngor ym maes cam-drin hiliol:

- Roedd y cyfyng-gyngor yn ymwneud â mater cyffredin y mae llawer o swyddogion du yn yr heddlu a'r gwasanaethau brys eraill yn eu hwynebu.
- Yn y senario hwn, aeth y swyddog a chydweithiwr arall at leoliad lle honnwyd bod dyn meddw wedi cymryd gorddos. Tra'r oeddent ar y ffordd i'r ysbyty, dechreuodd y dyn gam-drin y swyddog yn hiliol.
- Rhoddwyd gwybod bod y swyddog wedi gwrthod datgelu hyd a lled y cam-drin i'w oruchwylydd. Roedd y cam-drin wedi'i gyfeirio at y swyddog ei hun ond hefyd at deulu'r swyddog (gan gynnwys ei blant). Cafodd y digwyddiad ei gofnodi ar fideo camera a wisgir ar gorff y swyddog.
- Tra'r oeddent ar y ffordd i'r ysbyty, gwnaed bygythiadau o boeri ac ymosod ar y swyddog. Digwyddodd hyn yn ystod anterth pandemig COVID-19 ac roedd y swyddog du yn ofni am ddiogelwch ei deulu, ei ffrindiau a'i gydweithwyr.
- Cwblhaodd y swyddogion wiriad cefndir ar y dyn a chanfod bod ganddo farcwyr rhybudd wrth ei enw am ymosod a phoeri ar swyddogion yn y gorffennol.
- Wrth gyrraedd yr ysbyty, dechreuodd y dyn baratoi i gasglu fflem er mwyn poeri ar y swyddogion. Agorodd y swyddog gefn y cerbyd a phwyso botwm y chwistrell pava ar y dyn er mwyn cael rheolaeth ar y digwyddiad.
- Arhosodd y swyddogion a'r sawl dan amheuaeth mewn ystafell ar wahân yn yr ysbyty a chafodd y swyddog ei amlygu i ragor o gam-drin hiliol am nifer o oriau. Dioddefodd y swyddog arall gam-drin homoffobig hefyd.
- Ar ôl rhyw dair awr o gam-drin hiliol, cafodd y swyddog ei daflu oddi ar ei echel a gwaeddodd rheg pedair llythyren ar y dyn. Roedd hi'n ddrwg iawn gan y swyddog ar ôl y digwyddiad a mynegodd cryn edifarhad am y ffordd y bu iddo ymateb.
- Siaradodd y Rhingyll Jones â'r swyddog ar ôl y digwyddiad. Yn ystod y sgwrs hon, datgelodd y swyddog ei fod wedi dioddef cam-drin hiliol yn ystod ei 20 mlynedd o wasanaeth. Dywedodd y swyddog fod cyfanswm y gamdriniaeth dros yr 20 mlynedd hynny yn ddim o'i gymharu â'r 3 awr o gamdriniaeth a gafodd gan yr unigolyn dan sylw.
- Yn dilyn y digwyddiad, cynhaliwyd ymchwiliad a rhoddwyd papurau camymddwyn i'r swyddog am regi ar y dyn yn ystod y digwyddiad.
- Ar ôl dioddef cam-drin hiliol yn y lle cyntaf, daeth y swyddog yn destun ymchwiliad ar ei ymddygiad yn gyflym.

5. Cyfyng-gyngor Moesegol i'w Drafod – Wedi'i Uwchgyfeirio o'r Grŵp Moeseg Mewnol

- Mae'r Cod (adran 9.1) yn nodi fod pob swyddog yn gyfrifol am ei ymddygiad ei hun ar ddyletswydd neu beidio a rhaid iddo gadw'n broffesiynol drwy'r amser.

Cwestiynau i'w trafod:

Mae'r cyfyng-gyngor hwn yn codi cwestiynau y mae swyddogion yr heddlu yn eu hwynebu ond y mae gweithwyr y gwasanaethau brys yn eu hwynebu yn gyffredinol hefyd:

- Sut y dylid ymdrin â swyddogion sy'n wynebu'r fath sefyllfaoedd?
- Pa gymorth y dylid ei roi ar waith i helpu swyddogion sy'n wynebu sefyllfaoedd tebyg?
- Beth y gall sefydliadau ei wneud i gefnogi swyddogion sy'n destun troseddau casineb wrth gyflawni eu dyletswyddau?

Daethpwyd â'r cyfyng-gyngor yn ei flaen er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r gyfraith. Nid yw'r gyfraith, mewn perthynas â threfn gyhoeddus yn benodol, yn berthnasol i ddigwyddiadau lle cafodd rhywun ei gam-drin mewn lle preifat (mae torri trefn gyhoeddus ond yn berthnasol mewn lle cyhoeddus).

Esboniad o'r ffeithiau:

- A wnaeth yr aelod o'r cyhoedd gŵyn ffurfiol am y swyddog du? (SO)
    - Naddo, dim ond pan aeth yr unigolyn i mewn i'r ddalfa y cafodd y mater ei godi. Soniodd yr unigolyn dan amheuaeth ei fod yn dymuno gwneud cwyn yn erbyn swyddog gwyn am ymosodiad rhywiol, ond cafodd y gŵyn ei thynnu'n ôl yn ddiweddarach. Wrth ystyried y dyn a oedd yn y ddalfa, tynnodd y swyddogion sylw'r peth at Safonau Proffesiynol.
- Cafodd y dyn ei gyhuddo o drosedd trefn gyhoeddus mewn perthynas â'r arestiad cychwynnol. Ers hynny, mae'r dyn wedi bwrw ei ddedfryd.
    - A oedd y goruchwylydd yn ymwybodol fod un o'i swyddogion yn dioddef cam-drin hiliol wrth i'r peth ddigwydd? (CEB)
        - Roedd y Rhingyll Steve Jones gartref ond cysylltodd â'r swyddogion, awgrymodd y Rhingyll Jones fod y swyddog yn cael ei symud er mwyn sicrhau na fyddai'n mynd trwy ragor o gamdriniaeth.
    - A roddodd y swyddogion yn y lleoliad wybod i unrhyw un arall wrth i'r peth ddigwydd? (CEB)
        - Codwyd y mater gyda'r Rhingyll dros dro ar y pryd. Gall cyfathrebu â swyddogion mewn ysbytai fod yn ysbeidiol.
- Pa gymorth oedd ar gael i'r swyddog a fu'n destun cam-drin hiliol? (CEB)
    - Cynigiodd y Rhingyll Steve Jones gefnogaeth i'r swyddog. Atgyfeiriwyd y swyddog at iechyd galwedigaethol a sefydlwyd rhwydwaith cymorth. Daeth y staff ynghyd a chynnig eu cefnogaeth i'r swyddog.
- Ai dim ond unwaith y defnyddiodd y swyddog y rheg? (JS)
    - Defnyddiodd y swyddog y gair fwy nag unwaith.

Cwestiynau a godwyd gan y Pwyllgor:

- Petai swyddog yn rhegi mewn ymateb i aelod o'r cyhoedd yn ei gam-drin, ai ymchwiliad tebyg i'r un yma fyddai'r protocol fel rheol? (JS)
- A oedd hi'n bosibl i'r swyddog ffonio i mewn yn ystod y digwyddiad a chael swyddog arall i gymryd ei le? (JS)
- Beth oedd safbwynt Safonau Proffesiynol ar sut y dylid ymdrin â'r digwyddiad hwn? A oedd y safbwynt hwn yn caniatáu ar gyfer unrhyw fath o liniaru? Beth oedd canlyniad yr ymchwiliad i'r digwyddiad hwn? (HP)
- Os na wnaeth yr aelod o'r cyhoedd gwyno, sut y cafodd rhegi'r swyddog a oedd yn cael ei gam-drin ei uwchgyfeirio i gyhuddiad o gamymddwyn? (JG)
- Pam yr ystyriwyd ei bod hi'n dderbyniol i swyddog ar ddyletswydd ddioddef 3 awr o gam-drin hiliol? Ai'r rheswm dros hyn oedd amharodrwydd y swyddog i roi gwybod am y gamdriniaeth? Ydy'r Heddlu o'r farn y dylai swyddogion aros mewn sefyllfaoedd o'r fath? A oedd y swyddog/swyddogion yn teimlo na allai ryddhau ei hun o'r gamdriniaeth yn ystod y digwyddiad na rhoi gwybod iddo gael ei gam-drin ar ôl y digwyddiad? (LJ)
- Nododd y Pwyllgor er y dylai swyddogion yr heddlu fod yn fwy cadarn nag aelod cyffredin o'r cyhoedd, nid yw hyn yn golygu y dylai fod yn agored i gael ei gam-drin. Pa ddisgwyliadau sy'n rhesymol o ran yr hyn y dylid disgwyl i swyddogion yr heddlu ei oddef. Ai sail y cyhuddiad o gamymddwyn oedd y ffaith i'r swyddog regi neu am ddefnyddio'r rheg benodol honno? Neu gyfuniad o'r ddau? (JWD)
- A yw'r corff sy'n ymchwilio i'r digwyddiadau hyn yn annibynnol neu ai swyddogion o fewn y tîm ydyn nhw? (JS)
- Ble y dylid tynnu'r llinell? Sut mae cael y swyddogion i weithio o fewn y ffiniau? (HP)
- Ar ôl i swyddog nodi ei fod mewn sefyllfa ddiraddiol neu beryglus, beth yw cyfrifoldebau'r Heddlu? Ai'r Heddlu sydd ar fai am beidio â diogelu'r swyddog yn well? (JW)

5. Cyfyng-gyngor Moesegol i'w Drafod – Wedi'i Uwchgyfeirio o'r Grŵp Moeseg Mewnol

- Pa asesiad cychwynnol a wnaed mewn perthynas â'r digwyddiad ac a wnaeth rhegi'r swyddog gyrraedd y trothwy i'r adran safonau proffesiynol ymchwilio iddo? (JW)

Trafodaeth:
Canolbwyntiodd y Pwyllgor ar ddau fater a oedd yn gwrthdaro o ran diwylliant/amgyffrediad o ddyletswyddau: pam roedd y swyddog yn credu y dylai oddef cael ei gam-drin am dair awr: ai penderfyniad yr unigolyn oedd hyn neu symptom o'r diwylliant sy'n gyffredin yn yr Heddlu? Nododd JWD fod disgwyl i swyddogion yr heddlu fod yn anarferol o gadarn, dylent allu goddef mwy o feirniadaeth a sarhad nag aelod cyffredin o'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae angen tynnu llinell i nodi pryd mae pethau'n mynd yn rhy bell – dylai swyddogion fod yn gadarn ond ni ddylent fod yn agored i gael eu cam-drin. Nododd HP fod angen nodi'r gwahaniaeth rhwng creu diwylliant gweithio lle mae swyddogion yn deall pa gamdriniaeth y gellid disgwyl iddynt ei goddef a pha gamdriniaeth na ddylid disgwyl iddynt ei goddef.

O ran polisi a chanllawiau camymddwyn yr adran safonau proffesiynol, mynegodd JW bryderon o ran y trothwy uwchgyfeirio a chwestiynodd a oedd camau gweithredu yn erbyn camymddygiad yn angenrheidiol lle ceir materion cythruddo ac yn yr achos hwn, lle ceir cyfnod maith o gamdriniaeth hynod atgas. Mae gan Heddlu De Cymru ddyletswydd i gynnal y Cod Moeseg ond yn yr achosion hynny, dylid gofyn am farn holistaidd a rhoi rhagor o ystyriaeth cyn uwchgyfeirio'r achos o gamymddwyn. Fodd bynnag, os caiff y digwyddiadau hynny eu hystyried o safbwynt dysgu, yna mae'n bosibl na fyddai'r canlyniad hwn mor anghymesur ag y mae'n ymddangos yn y lle cyntaf.

Rhagor o wybodaeth:
Cadarnhaodd y Rhingyll Jones mai'r Adran Safonau Proffesiynol yw'r corff sy'n ymchwilio i ddigwyddiadau o gamymddwyn. Mae'r Adran Safonau Proffesiynol yn adran annibynnol yn Heddlu De Cymru lle caiff digwyddiadau eu hadolygu a chanlyniad ei benderfynu arno. Bydd yr Adran Safonau Proffesiynol yn adolygu unrhyw ddigwyddiad lle mae swyddog wedi trin aelod o'r cyhoedd yn anghywir. Roedd yn ofynnol i'r swyddog ymgymryd â chynllun gwaith ymarfer myfyriol a chafodd ei fonitro am dri mis ar ôl i ymchwiliad yr Adran Safonau Proffesiynol gael ei gwblhau.

Nododd MJ fod y swyddog yn gwybod y byddai'r hyn a wnaeth yn arwain at atgyfeiriad i'r Adran Safonau Proffesiynol. Mae'r Adran Safonau Proffesiynol yn canolbwyntio ar feithrin 'diwylliant o ddysgu' (yn hytrach na 'diwylliant o gosbi') o gwmpas ymddygiadau ac arferion derbyniol. Eglurodd MJ fod y cyfyng-gyngor hwn yn cael ei ddilyn yn genedlaethol hefyd drwy OP HAMPSHIRE oherwydd y cynnydd mewn troseddau casineb yn erbyn swyddogion. Yn sgil hyn, mae'r Adran Safonau Proffesiynol wedi dwyn fforwm ynghyd ar gyfer yr holl swyddogion du. Mynegodd MJ bryderon o ran gallu'r heddlu a'r system cyfiawnder troseddol i ddeall hil yn llwyr a'r effaith y mae'n ei gael ar y system cyfiawnder troseddol ac i'r bobl sy'n gweithio i'r Gwasanaeth. Ochr yn ochr â hyn, mae swyddogion yr heddlu o leiafrifoedd ethnig yn cael eu targedu gan eu cymunedau eu hunain a'u labelu'n 'fradwyr'.

Cwestiynau/ymatebion pellach:

- Mae'r ffaith bod poeri ynghlwm â'r digwyddiad hwn yn codi set arall o faterion mewn perthynas ag iechyd a diogelwch a'r effaith ar swyddogion sy'n gorfod delio â 'gwaith brwnt'. (HP)
- Y rheithfarn gyntaf yw bod rhegi'n ddrwg, ond a fu unrhyw anghydfod o ran a oedd yn dda neu'n ddrwg? Neu a allai gael ei ystyried fel math o gyfathrebu tactegol? A wnaed unrhyw ymgais i gyfiawnhau yn hytrach nag esgusodi'r rhegi? (JWD)
- Mewn digwyddiad blaenorol o regi, roedd yr adran safonau proffesiynol yn ystyried mai ymddygiad annerbyniol oedd hyn a rhagnodwyd canlyniad dysgu myfyriol (fel y canlyniad yn yr achos hwn). (SO)
- Yn y Weinyddiaeth Amddiffyn, nodwyd bod eu swyddogion Arfau Tanio'n cael eu hannog i regi, fel math o gyfathrebu tactegol. (JJ)
- A ddylai'r Cod arddel agwedd wahanol at regi? Ymddengys y gall swyddogion regi mewn rhai sefyllfaoedd er mwyn cael rheolaeth ar sefyllfa neu er mwyn cyfathrebu'n dactegol â'r cyhoedd. Ond, mae'r Cod yn gwahardd swyddogion rhag rhegi yn llwyr. O ganlyniad, mae'n ymddangos nad yw'r Cod yn cydymffurfio ag ymarfer plismona. A ddylid diwygio'r Cod i leddfu natur ddigyfaddawd y gwaharddiad ar regi? (JWD)
- Ar lefel ymarferol, mae rhegi ar sbectrwm i bob golwg ond, yn y Cod, caiff ei wahardd yn llwyr. Mae'r Cod yn rhagnodol iawn ond, yn anffodus, nid yw'r sefyllfaoedd y mae swyddogion yn eu hwynebu yn ffitio'r model hwnnw bob tro. (JJ)
- Nid yw o fewn cylch gwaith Heddlu De Cymru i newid y Cod Moeseg ond gallwn geisio dylanwadu ar hyn yn y tymor hwy. Fodd bynnag, mae cyfle i addasu amgyffrediad Adran Safonau Proffesiynol Heddlu De Cymru o'i ffocws blaenorol ar orfodi i gylch gwaith ehangach sy'n cynnwys elfennau addysgegol a ffurfiannol, fel ymarfer myfyriol. Mae angen i'r adran safonau proffesiynol sicrhau cysondeb wrth ymchwilio a dylai popeth fynd trwy'r adran yn hytrach na thrwy reolwyr llinell sy'n gwneud penderfyniadau. (ML)
- Cafodd y swyddog ei gam-drin yn hiliol am 3 awr ac ymatebodd mewn ffordd y byddai'r rhan fwyaf o bobl resymol yn ei gwneud. Mae'r swyddog yn ddioddefwr, felly mae'n teimlo'n anghywir i ddisgwyl safonau uwch ohono. Dylid bod wedi ymdrin â'r swyddog fel dioddefwr a dylai cymorth fod wedi bod ar waith. (BW)
- Sut mae swyddogion yn gweld yr adran safonau proffesiynol? Ai math o gymorth yn hytrach na chosb yw ymarfer myfyriol y mae'r swyddogion yn ei ystyried yn wahanol? A oes angen ymdrechion pellach i newid dealltwriaeth swyddogaeth yr adran safonau proffesiynol yn yr Heddlu, o gofio'i ffocws ehangach? (JWD)

5. Cyfyng-gyngor Moesegol i'w Drafod – Wedi'i Uwchgyfeirio o'r Grŵp Moeseg Mewnol

Rhagor o wybodaeth:
Nododd DR, fel Pennaeth yr adran safonau proffesiynol, fod y rheoliadau newydd (2020) yn rhoi pwyslais ffres ar ymarfer myfyriol. Caiff 90% o'r achosion a atgyfeiriwyd i'r adran safonau proffesiynol ganlyniad ymarfer myfyriol. Caiff yr adran safonau proffesiynol ei chymell yn helaeth gan ddogfennau'r Swyddfa Gartref a'r Coleg Plismona sy'n cyffwrdd ar anghymesuredd ym maes plismona. Ar raddfa genedlaethol, tynnwyd sylw at fater yn ymwneud ag anghymesuredd cosbau [a hefyd brosesau'r adran safonau proffesiynol sy'n cynnwys swyddogion du a lleiafrifoedd ethnig]. Nododd DR fod ymgyrch allgymorth yn mynd rhagddi, sy'n golygu bod aelodau'r uwch dîm rheoli'n darparu gweithdai wyneb yn wyneb gyda rheolwyr rheng flaen er mwyn annog ymarfer myfyriol.

Gwyliodd DR y deunydd fideo camera a wisgir ar y corff o'r senario hwn ac mae'n cydymdeimlo'n ddwys â'r swyddog dan sylw. Fodd bynnag, pwysleisiodd fod angen i swyddogion lynu wrth y Cod. Mae'r Heddlu'n disgwyl i rinweddau swyddogion ragori ar rinweddau unigolion rhesymol arferol, mae disgwyl i swyddogion gadw'n bwyllog ac ymatal eu hunain mewn sefyllfaoedd ymfflamychol. Yn y senario hwn, ffafriodd yr asesiad diogelwch ymarfer myfyriol. Ystyriwyd mai dioddefwr oedd y swyddog a chafodd y troseddwr ddedfryd o garchar.

Cwestiynau / ymatebion drwy wybodaeth bellach:

- Mae disgwyl i swyddogion fod yn hunanymataliol, ond o wynebu cam-drin hiliol difrifol a pharhaus e.e. yn yr un modd ag y dioddefodd y swyddog hwn, a allai rhegi (yn hytrach nag ymateb mwy cadarn) olygu hunanymatal eithriadol? (JWD)
- Mae'n cymryd amser eithriadol o hir i sefydliad symud i ffwrdd o ddisgyblu trwy gosb i ddysgu myfyriol. Cymerodd ddegawd i gyflawni hyn ym maes meddygaeth. (JG)
- Pa mor aml y caiff y Cod Moeseg yma ei ddiweddaru? A ydyw wedi newid i adlewyrchu plismona heddiw? (JG)
- Os oes ymarfer myfyriol ar waith, a gafodd hynny ei nodi ar gofnod parhaol y swyddog? Os felly, a allai canlyniad ymarfer myfyriol gael ei ystyried fel cosb i'r graddau hynny ac felly heb fod yn gwbl ffurfiannol? (JWD)
- Mae angen i'r Heddlu gymryd dull myfyriol ar yr hyn y gellid bod wedi'i wneud yn ystod y tair awr y cafodd y swyddog ei gam-drin a'r hyn y gellir ei ddysgu. (ML)

Rhagor o wybodaeth:
Nododd MJ fod sawl digwyddiad lle na chaiff dioddefwyr eu trin gyda'r sensitifrwydd yr hoffem ei weld yn y system cyfiawnder troseddol. Nid yw'r ddeddfwriaeth a pholisïau presennol yn cefnogi swyddogion a dioddefwyr du yn briodol. Mae'r polisïau hyn a'r ddeddfwriaeth bresennol yn symptom o hiliaeth sefydliadol ac yn rhannol gyfansoddol ohoni. Nid ydynt yn ddigonol i ddelio â chymhlethdod y problemau. Cadarnhaodd MJ fod y Coleg Plismona yn adolygu'r Cod eleni a'i fod yn ailagor yr ymgynghoriad hwnnw.

Cadarnhaodd DR y caiff ymarfer myfyriol ei gofnodi, ynghyd â'r dilyniant o ddigwyddiadau a naratif cefnogol. Cadarnhaodd DR hefyd fod y troseddwr yn yr achos hwn wedi'i gyhuddo am drosedd trefn gyhoeddus hiliol a chafodd ei ddedfrydu i 6 mis o garchar.

Roedd consensws yn y grŵp y dylid bod wedi ymdrin â hwn fel achos lles. Yn yr un modd, roedd cryn gefnogaeth i atgyfeirio'r digwyddiad hwn at yr adran safonau proffesiynol. Y cwestiwn a godwyd oedd, ar ôl i'r digwyddiad gael ei atgyfeirio at yr adran safonau proffesiynol, a ddylai hwn cael ei 'brysbennu' yn y lle cyntaf? O ran y cymorth sydd ar waith i ostegu'r digwyddiad wrth iddo ddigwydd, roedd y grŵp yn llai clir ar yr agwedd honno. Gwnaed un sylw ar ddiwylliant swyddogion yn gwybod y gallant ofyn am help yn y sefyllfaoedd hyn. Dylid disgwyl i swyddogion fod yn gadarn ond heb fod yn agored i gael eu cam-drin, mae'n ymwneud â deall 'beth yw gormod'.

Crynodeb y Cadeirydd
Mae'r cyfyng-gyngor yn codi tri phrif fater moesegol:

1. **Beth yw statws moesegol swyddog yn rhegi at aelod o'r cyhoedd?**
   Mae'r cyfyng-gyngor hwn yn codi mater ehangach ar foeseg cyfathrebu'r heddlu: yn foesegol, a ellir byth caniatáu i swyddog ar ddyletswydd regi wrth gyfathrebu ag aelod o'r cyhoedd?

   Mae gan swyddogion ddyletswydd i ymddwyn yn barchus, yn gwrtais ac yn broffesiynol tuag at aelodau'r cyhoedd ac ymddwyn mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo ymddiriedaeth y cyhoedd yn yr Heddlu. Felly, ni fyddai rhegi'n cyd-fynd yn amlwg â phlismona cyfrifol. Fodd bynnag, nododd yr aelodau annibynnol y gallai swyddog regi i gael rheolaeth ar sefyllfa ymfflamychol er enghraifft. Dan yr amgylchiadau hynny, gall rhegi gyfleu i'r aelod/aelodau o'r cyhoedd y caiff ei gyfeirio ato/atynt pa mor ddifrifol y mae'r swyddog yn ystyried y sefyllfa sy'n dod i'r amlwg neu gall danlinellu difrifoldeb y bwriad y tu cefn i gyfarwyddiadau'r swyddog. At hynny, efallai na fydd ffurfiau cyfathrebu sy'n hwyluso'r gwaith o blismona un grŵp yn effeithiol o reidrwydd mor effeithiol gyda grŵp arall lle mae normau ac arferion ieithyddol yn wahanol. Mae'n ymddangos bod ymarfer y Weinyddiaeth Amddiffyn y rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor amdano yn nodi y gall rhegi fod yn fath o gyfathrebu tactegol dan rai amgylchiadau. Gallai swyddogion ddefnyddio rhegi i gael trefn ar sefyllfaoedd ymfflamychol heb i rym corfforol gael ei ddefnyddio. Fodd bynnag, o ran plismona, nodwyd bod y Cod Moeseg yn cynnwys gwaharddiad llwyr ar regi (adran 2.1). O ganlyniad, mae'n ymddangos nad yw'r Cod yn cydymffurfio ag ymarfer yn y mater hwn, ac o bosibl, â realiti plismona.

5. Cyfyng-gyngor Moesegol i'w Drafod – Wedi'i Uwchgyfeirio o'r Grŵp Moeseg Mewnol

Dylai'r rhai sy'n ymgymryd ag adolygiad presennol y Cod Moeseg ar lefel genedlaethol ymgynghori ag ymchwil bresennol neu ymgymryd ag ymchwil i effeithlonrwydd rhegi fel tacteg plismona: a yw'n tueddu i waethygu sefyllfaoedd ymfflamychol neu gynorthwyo swyddogion i gael rheolaeth ar sefyllfaoedd ymfflamychol. O gadarnhau y gall rhegi (o fathau penodol) fod yn adnodd plismona effeithiol dan rai amgylchiadau, mae'n bosibl fod achos *prima facie* ar gyfer llacio neu gymhwyso'r gwaharddiad presennol ar regi yn y Cod.

Yn yr achos dan sylw, mae'n ymddangos na ddefnyddiwyd rhegi yn dactegol ond er mwyn mynegi rhwystredigaeth y swyddog (sy'n gwbl ddealladwy). Er bod ffeithiau'r cyfyng-gyngor presennol yn orthogonol, mae'n bwysig codi'r pwynt ehangach hwn nad yw'r gwaharddiad cyffredinol presennol ar regi yn ystyried y defnydd eang a'r defnydd potensial o regi o'i ddefnyddio'n briodol wrth blismona.

2. Pa gymorth y dylai Heddlu De Cymru ei gynnig i swyddogion sy'n cael eu cam-drin yn hiliol neu wedi cael eu cam-drin yn hiliol tra roeddent ar ddyletswydd?

Cymorth yn y Rheolau
Bu'r swyddog yn y cyfyng-gyngor hwn yn destun camdriniaeth hiliol ofnadwy a hirfaith. Barn yr aelodau annibynnol oedd y dylai rheolau ac ymarfer yr adran safonau proffesiynol adlewyrchu'r ffaith y gallai cythruddo mor ddifrifol â hyn olygu lliniaru sylweddol, neu yn wir, amddiffyniad llwyr i'r cyhuddiad o ddefnydd amhriodol o iaith.

Rhaid i swyddogion yr heddlu ddangos gallu hunanymatal uwch, hyd yn oed o gael eu cythruddo. Fodd bynnag, ystyriodd yr aelodau na ellir disgwyl i swyddogion fod yn agored i gael eu sarhau a'u cam-drin, yn enwedig o wynebu iaith casineb. Mae'n anodd dychmygu unrhyw un, swyddog yr heddlu neu rywun arall, yn dioddef y fath ddirmyg am gyfnod maith heb fynegi ei wrthwynebiad chwyrn i'r hyn sy'n cael ei ddweud amdano ef a'i deulu. Mae hunan-barch yn gofyn i unigolyn beidio â bod yn fodlon caniatáu i bobl eraill ei gam-drin na cheisio tanseilio'i werth heb i hynny gael ei gywiro na'i herio. Nid yw'n glir y gallai rhywun sy'n parchu ei hun dderbyn y gamdriniaeth hiliol hirfaith a fitriolig hon a gwneud dim i fynegi ei wrthwynebiad ohoni. Er nad oedd yr ymateb a roddwyd yn y pen draw, sef rheg ymosodol, yn gyson â dyletswyddau'r swyddog dan y Cod Moeseg, roedd yn gwbl ddealladwy. Barn yr aelodau annibynnol oedd bod y swyddog wedi cyfyngu ei fynegiant i ymateb geiriol, a thrwy hynny ddangos hunanymatal dan yr amgylchiadau hyn.

Cymorth mewn Diwylliant ac Ymarfer Plismona
Mater arall a godwyd gan y cyfyng-gyngor hwn oedd pa gymorth oedd *ar gael* i'r swyddog yn ystod y cam-drin hiliol ac wedi hynny a pha gymorth oedd *o fewn cyrraedd* o fewn y diwylliant sefydliadol cyffredinol.

Ni ddylai'r swyddog deimlo nad oedd ganddo ddewis realistig ond i fynd trwy dair awr o gael ei gam-drin yn hiliol. Mae'n bosibl nad oedd dewisiadau canfyddedig na gwirioneddol oherwydd bod diffyg cefnogaeth ar gael neu ganfyddiad na ddylid gofyn am y gefnogaeth a oedd ar gael. Mater gweithredol a dichonoldeb yw'r pryder o ran argaeledd, ond afraid dweud, dylid parhau i ymdrechu i sicrhau bod swyddogion ar gael er mwyn gallu tynnu swyddog allan o sefyllfa niweidiol fel hyn yn gyflym.

Mae a wnelo'r pwynt hygyrchedd â'r diwylliant yn yr Heddlu. Os bydd swyddog yn ymwybodol fod cefnogaeth ar gael yn ffurfiol, a fyddai'r pwynt diwylliant, lle gofynnir am gefnogaeth dan yr amgylchiadau hyn, yn destun gwg/cael ei ystyried yn wendid ar ran y swyddog sy'n gofyn? Os felly, gall cefnogaeth fod ar gael yn ffurfiol ond nad oes modd ei gael yn ymarferol. Mae rheidrwydd ar Heddlu De Cymru i feithrin diwylliant lle mae swyddogion yn hyderus i alw am gefnogaeth pan fyddant mewn amgylchiadau sy'n golygu eu bod yn dioddef trosedd casineb. Mewn cyd-destun chwaraeon, mae'n hysbys bellach nad yw athletwyr yn tueddu i dynnu eu hunain yn ôl o chwarae pan fyddant wedi cael anafiadau i'r pen. Mae'r diwylliant cyffredin mewn llawer o gampau heriol yn llesteirio yn erbyn chwarewyr sy'n datgelu eu gwendid. O ganlyniad, mae'r cyfrifoldeb bellach ar swyddogion, meddygon a hyfforddwyr i dynnu'r chwaraewyr hynny allan o'r maes chwarae. Yn yr un modd, dylid cymryd camau rhagweithiol i annog swyddogion i roi gwybod pan fyddant yn cael eu cam-drin ond hefyd er mwyn iddynt gael eu tynnu allan o sefyllfaoedd gan uwch-aelodau o staff pan fydd hi'n glir eu bod yn cael eu cam-drin.

Yn ogystal â'r cymorth a roddir pan fydd digwyddiad yn mynd rhagddo, dylai cymorth cofleidiol barhau i fod ar gael i swyddogion yn dilyn y digwyddiadau hynny. O gofio pa mor aml y caiff swyddogion BAME (ac yn wir aelodau o'r gwasanaethau brys yn fwy cyffredinol) eu cam-drin yn hiliol, croesewir y fforwm i swyddogion heddlu duon a gafodd ei ffurfio gan yr adran safonau proffesiynol, ac mae'n siŵr y bydd argymhellion pellach yn dod i'r amlwg o waith y grŵp hwnnw.

3. Pa rôl y dylai'r adran safonau proffesiynol ei chwarae dan amgylchiadau lle mae swyddog yn dial ar lafar ar ôl iddo gael ei gam-drin yn hiliol?
Mae'r adran safonau proffesiynol wedi mynd trwy newid pwysig yn ei rôl ers mis Chwefror 2020. Yn bennaf, mae wedi symud o swyddogaeth ddisgyblu yn unig i un sydd wedi cadw ei swyddogaeth ddisgyblu ond sydd hefyd yn cynnwys swyddogaeth addysgol ehangach. Er y gall atgyfeiriad at yr adran safonau proffesiynol fod wedi awgrymu drwgweithredu a'r posibilrwydd o

5. Cyfyng-gyngor Moesegol i'w Drafod – Wedi'i Uwchgyfeirio o'r Grŵp Moeseg Mewnol

gosbau yn y gorffennol, gall atgyfeiriad nawr ddangos bod angen i swyddog wneud rhywfaint o waith ymchwil a myfyrio er mwyn deall ei rôl a'i gyfrifoldebau yn well.

Dylai'r ymdrechion parhaus i bwysleisio i swyddogion nad yw'r adran safonau proffesiynol bellach yn gorff sy'n canolbwyntio ar ddisgyblu yn unig barhau. Nid yw'r symudiad dymunol mewn amgyffrediad yn debygol o fod yn broses gyflym, ond dylai ymdrechion barhau i sicrhau bod y ddealltwriaeth o weithgareddau'r adran safonau proffesiynol ymhlith swyddogion yn olrhain cwmpas ehangach ei weithgareddau fwyfwy, fel na thybir bod atgyfeiriad at yr adran safonau proffesiynol yn arwain at orfodaeth yn dilyn cyhuddiad o gamymddwyn. Gall creu dwy ffrwd atgyfeirio ar wahân yng ngweithgareddau'r adran safonau proffesiynol dynnu sylw at y gwahaniaeth hwn rhwng swyddogaethau'r adran sy'n canolbwyntio ar ddisgyblu ac sy'n canolbwyntio ar ymarfer myfyriol.

Fodd bynnag, mae'r ffaith bod ymarferion ymarfer myfyriol rhagnodedig yn ymddangos ar gofnod parhaol swyddog yn awgrymu i'r aelodau annibynnol fod y 'tro ffurfiannol' yng ngweithgarwch yr adran safonau proffesiynol yn parhau i fod yn anghyflawn i ryw raddau. Er bod y pwyslais wedi symud i ymarfer myfyriol sy'n anelu i'r dyfodol yn hytrach na chosbi yn unol â'r gorffennol, gall cynnwys ymarfer myfyriol ar gofnod parhaol unigolyn barhau i gynrychioli math o gosb anuniongyrchol. Does dim amheuaeth fod hyn yn rhwystr i ail-leoliad dymunol yr adran safonau proffesiynol.

5.2 Cyfyng-gyngor Moesegol Hunanladdiad Gyda Chymorth

Croesawodd y Cadeirydd Mr James Johnson i'r cyfarfod i gyflwyno'i gyfyng-gyngor moesegol a chydymdeimlodd â James ar ran y pwyllgor mewn perthynas â'i ddiweddar fam. Rhoddodd JJ gefndir i'r cyfyng-gyngor hunanladdiad gyda chymorth:

Dechreuodd JJ drafodaeth gyda phwynt iaith, gan nodi mai'r iaith a ddefnyddir i ddisgrifio'r cyfyng-gyngor yw 'hunanladdiad gyda chymorth'. Fodd bynnag, mae'r cyfyng-gyngor moesegol hefyd yn ymwneud â 'marwolaeth gyda chymorth'. Esboniodd JJ fod marwolaeth gyda chymorth yn cyfeirio at rywun sydd â salwch terfynol ac sydd am reoli ei ffordd o farw ac amser y farwolaeth. Hunanladdiad gyda chymorth yw gadael i rywun nad yw'n marw i ddewis marwolaeth yn lle bywyd.

Ysgrifennodd JJ lythyr i Gwnstabliaeth Hampshire yn 2019 ar amgylchiadau marwolaeth ei fam. Cyflwynodd JJ y llythyr hwn i'r Pwyllgor.

Crynodeb o'r llythyr:

Ysgrifennodd JJ at Gwnstabliaeth Hampshire yn dilyn llythyr a ysgrifennwyd at Syr Robert Buckland AS (yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder) wrth 18 o Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu mewn perthynas â'r gyfraith ar farw gyda chymorth yn y DU. Cafodd mam JJ ei diagnosio â fasgwlitis terfynol ar ddechrau 2019. Roedd hi'n nyrs ac roedd ganddi ddealltwriaeth glir iawn o effeithiau fasgwlitis a sgil-effeithiau ei feddyginiaeth. Daeth i'r casgliad nad oedd am farw mewn poen anochel, nad oedd modd ei hosgoi a oedd yn gysylltiedig â datblygiad y salwch hwn, a olygai y byddai'n methu gofalu amdani ei hun. Gwnaeth gais i Dignitas yn y Swistir i drefnu marwolaeth gyda chymorth. Roedd yn rhaid iddi gadw'n ddigon cryf i allu cyrraedd y Swistir a phrofi bod ganddi'r gallu meddyliol i wneud y penderfyniad hwnnw. Ni allai frwsio'i dannedd ei hun, ymolchi na defnyddio'r toiled heb gymorth mwyach.

Pan gafodd mam JJ ddyddiad ar gyfer ei marwolaeth gyda chymorth, disgrifiodd JJ iddo wynebu penderfyniad mwyaf anodd ei fywyd. Roedd y cyfnod hwn yn cyd-daro â'i brofiad cyntaf o broblem iechyd meddwl, pan gafodd ei ddiagnosio â gorbryder ymatebol acíwt. Cafodd JJ ei hun mewn sefyllfa anodd oherwydd gofynion ei swydd yng ngwasanaeth yr heddlu a'r gyfraith ar farw gyda chymorth yn y DU. Penderfynodd JJ gyda'i fam na fyddai'n cymryd y risg o'i helpu i gyrraedd y Swistir rhag ofn y byddai'n cael ei erlyn neu'n colli ei swydd. Arweiniodd hyn at JJ yn colli diwrnodau olaf bywyd ei fam.

Mynegodd JJ y pryder fod y gyfraith ar farw gyda chymorth yn y DU wedi golygu y bu rhaid i'w fam adael ei theulu a gwario dros £15,000 er mwyn marw gydag urddas. Dadleuodd fod marw gyda chymorth yn cael ei ystyried yn ganlyniad tosturiol o ran anifeiliaid anwes, oni ddylai ein hanwyliaid gael yr hawl hon hefyd? Mae JJ yn edifarhau am fethu â bod gyda'i fam yn ystod ei dyddiau olaf.

Cwestiynau i'w trafod:

- Pa gymorth ddylai Heddlu De Cymru ei roi i staff sy'n wynebu cyfyng-gyngor fel un JJ, a sut y dylid mynegi hwn i'r staff?
- Beth yw disgwyliadau'r swyddogion sy'n gwneud galwadau â chartrefi i ymchwilio i achosion lle mae perthnasau dan amheuaeth o gynorthwyo'u hanwyliaid i deithio i lefydd fel Dignitas? A ddylid cael polisïau ar waith i sicrhau y caiff ymchwiliad ei gynnal mewn modd trugarog? Er enghraifft, a ddylid cael sesiynau ymwybyddiaeth neu ddiwrnodau hyfforddiant ac a ddylai swyddogion fynd i ddigwyddiadau mewn dillad cyffredin a cheir heddlu heb eu marcio?

Cwestiynau/ymatebion y Pwyllgor:

- Nododd LJ fod Heddlu De Cymru wedi ymroi swm enfawr o waith i ddarparu cymorth a lles i staff. Mae LJ yn cefnogi'r cyfyng-gyngor hwn i fod yn rhan o strategaeth yn Heddlu De Cymru.

5. Cyfyng-gyngor Moesegol i'w Drafod – Wedi'i Uwchgyfeirio o'r Grŵp Moeseg Mewnol

- Ydy'r diwylliant hwn yn iawn? Os ydych yn swyddog neu aelod o staff, a fyddech chi'n teimlo'n gyfforddus yn delio â sefyllfa mor bersonol â hon gydag uwch-swyddogion? (LJ)
- Gofynnodd ML y cwestiwn canlynol i JJ: pa gymorth ydych chi'n meddwl y byddai wedi bod o help i chi, a sut byddai'r cymorth hwnnw'n wahanol i'r cymorth a roddir i rywun sydd wedi colli anwylyn dan amgylchiadau eraill?
- Gofynnodd JWD i JJ: A oedd elfennau cymorth penodol yr oeddech yn teimlo eu bod yn ddiffygiol ac y dylent fod wedi bod ar waith?
- Yn weithredol, ydy'r ymateb i achosion fel hyn yn dibynnu ar farn dda swyddogion neu ydy'r hyfforddiant yn paratoi swyddogion gyda dull systematig o ddelio â'r fath amgylchiadau? (JWD)

Rhagor o wybodaeth:
Nododd JJ ei bod hi'n siomedig na dderbyniodd unrhyw gyfathrebu nac ymateb i'r llythyr a anfonodd at Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Hampshire. Soniodd JJ hefyd iddo gael cryn gymorth gan Heddlu Hampshire mewn perthynas â'i gŵyn a rhoddwyd strwythur cymorth ei reolwr rheng flaen ar waith yn dda. Roedd JJ ar absenoldeb salwch hirdymor, a thrwy gydol y cyfnod hwn, derbyniodd gyfathrebiadau priodol gan ei reolwr llinell. Darparwyd yr hyn a oedd yn cyfateb i Care First yn Heddlu Hampshire i JJ gyda gwasanaethau cwnsela a oedd yn cynnwys chwe sesiwn gychwynnol a chwe sesiwn bellach ar ôl iddo ddychwelyd i'r gwaith.

Disgrifiodd JJ fod ei sefyllfa yn debyg i'w 'ben yn ffrwydro': cafodd drafferth i amgyffred pob diwrnod yn arwain at farwolaeth ei fam a theimlai na allai neb ddeall ei frwydr â'r cyfyng-gyngor moesegol hwn. Honnodd JJ fod diffyg ymwybyddiaeth y rheolwyr llinell o'r pwnc unigryw hwn, a'r ffaith nad oeddent yn deall ei brofiad yn llwyr, wedi gwneud pethau'n anoddach iddo. Hoffai JJ weld rhagor o ddealltwriaeth o'r cyfyng-gyngor hwn yn yr Heddlu, gan fod yna staff sy'n mynd trwy broblemau tebyg, neu a fydd yn mynd trwy broblemau tebyg.

Nododd JJ nad oedd am i'r adran safonau proffesiynol fod ynghlwm, felly bu'n wyliadwrus o ran yr hyn a oedd yn ei ddatgelu rhag ofn y byddai ei deulu'n destun ymchwiliad. Awgrymodd JJ y dylai unrhyw gyswllt gan yr adran safonau proffesiynol fod yn dryloyw a rhoi sylw i'r gyfraith ond yn gefnogol o aelodau'r staff a'r anawsterau yr oedd y cyfyng-gyngor moesegol hwn yn ei greu iddynt.

Cadarnhaodd DR nad yw'n ymwybodol o unrhyw hyfforddiant sydd ar waith ar gyfer y pwnc penodol hwn.

Trafodaeth:
Tynnodd MJ sylw at y ffaith ein bod yn byw mewn cymdeithas sy'n heneiddio a bydd penblethau tebyg yn dod i ran pobl yn fwyfwy rheolaidd, felly mae'n hollbwysig bod yr Heddlu'n cynnwys ystyriaeth i'r math hwn o senario mewn polisïau ac arferion. Gwnaeth MJ hefyd gydnabod y safiad niwtral y mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi'i gymryd mewn perthynas â moeseg marw gyda chymorth.

Awgrymodd MJ y byddai'r pwnc hwn yn gweddu'n briodol yn y Bwrdd Rhaglen Iechyd, Diogelwch a Llesiant. Ceir gyrrwr strategol ar raddfa weithredol hefyd i gefnogi ein cymuned sy'n heneiddio a all wynebu'r cyfyng-gyngor hwn. Yn weithredol, byddai'r cyfyng-gyngor hwn yn perthyn i amcan y Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd.

O ran yr ail gwestiwn, nododd JJ y dylid bod yn ofalus wrth roi sylw i faterion gweithredol ar farw gyda chymorth, er enghraifft, dylai swyddogion ddefnyddio stori eglurhaol a dod mewn dillad a char cyffredin. Dylai fod gan y swyddogion ddealltwriaeth o'r effaith y bydd eu presenoldeb yn ei gael ar yr unigolyn a dylent fod yn ystyriol o'r ffaith y gallai eu presenoldeb gael ei ystyried fel 'y defnydd cyntaf o rym'.

Nododd DR iddo ymchwilio i fater marw gyda chymorth yn yr Heddlu o'r blaen yn 2003, a'i fod yn ymwybodol o sensitifrwydd y mater hwn. Mae DR yn hyderus y byddai swyddogion Heddlu De Cymru yn defnyddio dull sensitif yn y senarios hynny. Nododd DR petai rhywun yn rhoi gwybod am senario o'r fath, byddai'n fwy tebygol o ddod oddi wrth chwythwr chwiban yn ffonio'r heddlu yn ddienw. Mae'n bosibl y rhoddir gwybod amdano hefyd mewn grŵp amlasiantaethol. Byddai tîm ymchwiliadau troseddau mawr yr Heddlu, sy'n fedrus iawn wrth drafod dioddefwyr a phobl dan amheuaeth a rhoi sylw iddynt, yn debygol o ymdrin â'r digwyddiad. Byddai cynllun gweithredu a dull sensitif priodol yn cael ei fabwysiadu.

Mae JJ yn ymwybodol na fyddai llawer o bobl yn teimlo'n gyfforddus nac yn hyderus i gefnogi marw gyda chymorth. Nododd fod angen dybryd i'r Heddlu fod yn ymwybodol o'r lefel o risg anhysbys sy'n gysylltiedig ag ef a dylid trin swyddogion yr effeithir arnynt gyda chryn ofal a sylw.

Crynodeb y Cadeirydd
Mae moeseg 'marw gyda chymorth' (sy'n cael ei alw'n 'hunanladdiad gyda chymorth' hefyd) a deddfwriaeth gysylltiedig yn destun dadl chwyrn mewn trafodaethau cyhoeddus ac mewn deunyddiau darllen ar Fiofoeseg. Caiff annog neu gynorthwyo hunanladdiad rhywun arall ei wahardd dan Adran 2 o Ddeddf Hunanladdiad 1967. Fodd bynnag, nid oedd y cyfyng-gyngor hwn yn ymwneud â moeseg marw gyda chymorth na moeseg deddfwriaeth marw gyda chymorth. Ni wnaeth y swyddog atgyfeirio ychwaith geisio herio'r egwyddor fod dyletswydd ar swyddogion i ufuddhau i'r gyfraith (hyd yn oed o ran cyfreithiau yr oeddent yn anghytuno â nhw). Yn hytrach, ei ddau bryder i gychwyn oedd, yn gyntaf, pa gymorth y dylid ei ddarparu i swyddogion sy'n dilyn eu rhwymedigaethau

5. Cyfyng-gyngor Moesegol i'w Drafod – Wedi'i Uwchgyfeirio o'r Grŵp Moeseg Mewnol

cyfreithiol pan fydd anwylyn sy'n derfynol sâl yn dymuno defnyddio gwasanaethau marw gyda chymorth dramor mewn awdurdodaeth lle caiff y gwasanaethau hynny eu caniatáu yn gyfreithlon? Yn ail, sut dylai'r Heddlu gynnal ymchwiliadau i doriadau honedig yn neddfwriaeth marw gyda chymorth sy'n cynnwys aelodau o'r cyhoedd? Mae'r un cyntaf yn mynd i'r afael â moeseg diwylliant sefydliadol yn yr Heddlu ac mae'r ail yn ymwneud â moeseg yr ymchwiliad.

Mae'r pryderon deuol hyn yn codi'r ddau gwestiwn canlynol i'w trafod:

1. **Cymorth i Swyddogion:** Pa gymorth y dylid ei roi i swyddog sydd ag anwylyn sy'n dymuno defnyddio gwasanaethau marw gyda chymorth dramor, a sut dylid cyfleu bod y cymorth hwnnw ar gael i'r swyddogion?
2. **Protocol yr Ymchwiliad:** Beth yw cyfrifoldebau'r swyddogion sy'n ymdrin â galwadau ynghylch honiadau bod aelodau o'r cyhoedd wedi torri cyfraith marw gyda chymorth?

Cymorth i Swyddogion

Roedd y swyddog a oedd yn atgyfeirio yn poeni, petai'n helpu ei fam ar ei thaith i'r Swistir i dorri'r gyfraith, y byddai'n destun ymchwiliad troseddol a allai roi terfyn ar ei yrfa. Nid oedd y swyddog yn gwybod a fyddai gofyn am gyngor neu gymorth yn sbarduno ymchwiliad troseddol iddo ef neu i aelodau o'i deulu. Gwnaeth yr ansicrwydd hwn atal y swyddog yn gryf rhag gofyn am gyngor neu gymorth yn ystod y cyfnod llawn straen a thrawmatig hwn yn ei fywyd.

Gan fod achosion fel hyn yn debygol o gynyddu yn y blynyddoedd sydd i ddod, mae'n bwysig i'r Heddlu ystyried y pwnc hwn mewn ffordd systematig er mwyn gallu darparu ymateb clir ac ystyriol dan yr amgylchiadau hynny. Yn benodol, dylid rhoi eglurder i swyddogion o ran a all gofyn am gymorth neu gyngor ddenu ymchwiliadau mewnol neu droseddol ohonyn nhw neu eu teulu, ac os felly, dan ba amgylchiadau.

Roedd gan y cymorth arfaethedig a gynigiwyd gan yr aelodau annibynnol yr amrywiadau canlynol:

1. **Ymwybyddiaeth:** Meithrin ymwybyddiaeth ledled yr Heddlu o'r cymhlethdodau a'r heriau i swyddog yr heddlu sy'n gysylltiedig â'r penderfyniad o ran cadw cwmni i anwylyn neu beidio (gan dorri'r gyfraith) neu alluogi anwylyn i deithio heb gwmni.
2. **Diwylliant:** Mae datblygu diwylliant ledled yr Heddlu lle mae swyddogion yn hyderus i fynd i'r afael â'r broblem hon gyda chydweithwyr ac uwch-swyddogion, efallai er mwyn cael cyngor ar y ffordd orau i ymdrin â'r broblem neu ofyn am gymorth ar gyfer y straen y mae'r amgylchiadau hynny'n ei greu.
3. **Creu Cynnwys:** Datblygu deunyddiau cymorth fel podlediad mewnol ar y mater, dadl fewnol ymhlith staff, cyfleoedd hyfforddiant gwell i ddelio â sefyllfaoedd fel hyn, neu fynegiant clir i staff fod yna ddull gweithredu i drafod y mater hwn mewn ffordd drugarog a chefnogol.
4. **Cyngor Dienw:** Rhoi cyfleoedd ar gyfer sgyrsiau dienw gyda'r adran safonau proffesiynol er mwyn i'r mater allu cael ei drafod heb sbarduno ymchwiliad.

Protocol yr Ymchwiliad

O ran yr ymchwiliad i honiadau o dorri deddfwriaeth sy'n gwahardd marw gyda chymorth, dylid ymgymryd â'r ymchwiliadau hynny mewn ffordd sensitif dros ben. Mae'r awgrymiadau a wnaed yn hyn o beth – swyddogion i ymweld mewn dillad cyffredin mewn car heb ei farcio gyda stori eglurhaol wedi'i pharatoi, neu i gynnal y cyfweliadau hynny mewn lleoliad wedi'i ddewis yn ofalus i ffwrdd o gartref y teulu – yn synhwyrol i'r aelodau annibynnol ac yn briodol i sensitifrwydd yr ymchwiliadau hynny.

Codwyd mater pellach o ran a ddylid darparu hyfforddiant wedi'i deilwra ar gyfer mater penodol marw gyda chymorth neu a yw swyddogion wedi'u paratoi i fynd i'r afael â'r fath amgylchiadau drwy hyfforddiant mwy cyffredinol? Cafodd safbwyntiau dargyfeiriol eu mynegi ynghylch hyn yn ystod trafodaethau. Er nad yw'n ymarferol o bosibl i ddarparu hyfforddiant penodol ar gyfer yr amrywiaeth lawn o amgylchiadau trychinebus y gall swyddog ddod ar eu traws, dylid ystyried a yw achosion o farw gyda chymorth yn cyflwyno heriau unigryw na all hyfforddiant priodol ei allosod o hyfforddiant mwy cyffredinol. Mae gwerthusiad o'r fath yn gofyn am lefel o gynefindra gyda manylion hyfforddiant swyddogion sydd y tu hwnt i allu'r pwyllgor hwn. Fodd bynnag, os byddai swyddogion yn debygol o ddod ar draws sefyllfaoedd yn fwyfwy rheolaidd yn y blynyddoedd sydd i ddod, ac os bydd yr ymchwiliadau hynny'n cyflwyno cymhlethdodau unigryw sydd heb eu cynnwys yn ddigonol yn y ddarpariaeth hyfforddiant presennol, yna dylid rhoi ystyriaeth i ddarparu canllawiau neu hyfforddiant penodol mewn perthynas â chynnal ymchwiliadau i achosion o'r math hwn.

7. Grŵp Arwain Moeseg Heddlu'r DU / De Cymru, Gorllewin Lloegr a Llundain (Rhwydwaith Moeseg Heddlu Rhanbarthol)

Cyfarfu'r rhwydwaith ar 21 Hydref 2021 ar gyfer cyfarfod pwyllgor a'r gynhadledd moeseg rhanbarthol blynyddol. Mewn perthynas â'r gynhadledd, cafodd cyfarfod y pwyllgor ei dalfyrru ac ni chafodd yr un cyfyng-gyngor ei drafod. Canolbwyntiodd y cyfarfod ar ddiweddariadau gan yr aelod bwyllgorau lleol amrywiol.

7. Grŵp Arwain Moeseg Heddlu'r DU / De Cymru, Gorllewin Lloegr a Llundain (Rhwydwaith Moeseg Heddlu Rhanbarthol)

Wrth roi gwybod am weithgareddau'r pwyllgor hwn, soniodd JWD am gyfyng-gyngor Cyd-bwyllgor Moeseg Annibynnol Heddlu De Cymru ar arddulliau cyfathrebu'r cyfryngau cymdeithasol o'r cyfarfod Pwyllgor diwethaf, ac awgrymodd Cadeirydd y Pwyllgor Rhanbarthol y gall fod yn werth trafod y cyfyng-gyngor hwn mewn cyfarfod rhanbarthol yn y dyfodol.

Cafodd y gynhadledd ei hymroi'n bennaf i'r trafodaethau canlynol:

- Y gallu i wneud penderfyniadau moesegol: Deall Sut a Pham (Yr Athro Allyson MacVean, Prifysgol Sba Caerfaddon)
- Y gallu i wneud penderfyniadau moesegol: Sut i'w Hymgorffori ym Mhob Rhan o'r Gwasanaeth (Dr Carl Williams, Heddlu Gwent)
- Ailosod Fframwaith Moesegol y Llynges Frenhinol: Myfyrdodau ar ôl 10 Mis (Y Cyrnol Tony de Raya, y Llynges Frenhinol)

9. Dyddiadau Cyfarfodydd yn 2022

Dydd Iau 31 Mawrth 14:00 - 17:00 - Microsoft Teams.

Dydd Mercher 29 Mehefin 12:00 - 16:00

Dydd Mawrth 13 Medi 0900 - 12:00

Dydd Iau 8 Rhagfyr 13:00 - 16:00